

Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2013–14

Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r prif feysydd lle bu cynnydd a'r meysydd lle mae angen gwella yng Ngwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam ar gyfer y flwyddyn 2013–14

Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad 2013 - 2014

Awdurdod Lleol: Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Mae'r adroddiad hwn yn datgan y meysydd cynnydd allweddol a'r meysydd allweddol i'w gwella yng Ngwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar gyfer y flwyddyn 2013-14.

Crynodeb

Mae'r cyngor yn parhau i weithredu newid a darparu gwasanaethau yn unol â'i gyfeiriad strategol a'i gynllun busnes. Mae'r ffocws ar atal ac ar gefnogi pobl i ddefnyddio adnoddau cymunedol gan sicrhau hefyd bod diogelu plant ac oedolion agored i niwed yn parhau'n flaenoriaeth. Mae modelau gwasanaeth newydd wedi cael eu cyflwyno ar y cyd â phartneriaid statudol eraill a rhwng y gwasanaethau oedolion a phlant.

Yn ôl yr ystadegau diweddaraf sydd ar gael, mae Wrecsam yn gwario ychydig yn llai y pen y boblogaeth ar wasanaethau cymdeithasol ac yn cyflogi ychydig yn llai o staff na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae adroddiad y cyfarwyddwr a'r dystiolaeth ategol yn cyfeirio'n glir at yr angen am ad-drefnu gwasanaethau i fodloni'r pwysau sydd ar y gyllideb. Mae'r penaethiaid gwasanaeth yn gweithio i sicrhau'r arbedion sydd wedi'u datgan. Mae gwasanaethau plant wedi parhau i gael eu gwarchod i raddau rhag arbedion yn ystod y flwyddyn ariannol hon, ond yn unol â chynlluniau ariannol y cyngor, bydd rhaid i'r gwasanaeth wneud arbedion yn erbyn cefndir o alw cynyddol am ofal a chefnogaeth yn ystod 2013/14 ac yn y tymor canolig.

Mae adroddiad y cyfarwyddwr yn amlinellu'r meysydd datblygu gwasanaeth sy'n rhagweld prif nodweddion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Mae'r cyngor wedi llofnodi datganiad o fwriad ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) i integreiddio gwasanaethau i bobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth. Mae hefyd wedi cytuno ar gynllun gyda BIPBC ar gyfer datblygu gwasanaethau gofal canolraddol. Gwnaed rhywfaint o gynnydd ond mae cwblhau cynlluniau strategol y bartneriaeth ag iechyd (a'u rhoi ar waith) yn parhau'n faes heriol i'r cyngor, fel y mae i gynghorau eraill Gogledd Cymru.

Mae'r cyngor wedi cyflwyno enghreifftiau o arfer da sy'n codi o weithredu ei strategaeth ymgysylltu. Mae'n cydnabod bod ei brosesau cyffredinol ar gyfer ymgynghori â grwpiau anodd eu cyrraedd, gan gasglu manylion am y galw sydd heb ei fodloni a sicrhau bod y wybodaeth yn sail i adolygu a datblygu'r gwasanaeth, angen eu datblygu ymhellach.

Mae fframwaith strategol 'Mwy Na Dim Ond Geiriau' yn ei le a bydd yn cael ei reoli gan Grŵp cydraddoldeb y gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r cyngor yn dweud bod amcanion y flwyddyn gyntaf wedi cael eu bodloni.

Bu cynnydd ym mwyafrif y meysydd gwella a gafodd eu datgan yn adroddiad y llynedd. Mae'r datblygiadau cadarnhaol mewn gwasanaethau plant wedi cynnwys gwella'r gyfradd ailgyfeirio a gwella canrannau'r plant sy'n cael eu gweld a'u gweld ar eu pen eu hunain wrth asesu ac yn y camau gweithredu sy'n cael eu rhoi ar waith i wella ansawdd yr asesiadau, yn ogystal â chodi ysbryd y staff a chynnig mwy o sefydlogrwydd.

Ceir perfformiad gwan mewn rhai meysydd. Mae'r cyngor yn parhau yn y chwarter is am gynnal asesiadau cychwynnol a chraidd yn amserol mewn gwasanaethau plant. Gall y ffactor hwn, yn ychwanegol at y gostyngiad mewn perfformiad o ran rhai meysydd gwaith perthnasol i blant sy'n derbyn gofal, adlewyrchu'r pwysau ar adnoddau staff, er gwaetha'r peth cynnydd mewn staff a rheolwyr yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Mae perfformiad y gwasanaethau oedolion mewn perthynas ag adolygiadau o gynlluniau gofal i ddefnyddwyr gwasanaeth yn wael. Mae hon yn flaenoriaeth yng Nghynllun Ad-drefnu Busnes yr Adran ar gyfer 2014/15 ond nid yw wedi'i datgan na'i dadansoddi'n fanwl yn adroddiad y cyfarwyddwr nac yn y dystiolaeth ategol, ac nid yw'r potensial am ragor o welliannau'n glir.

Yr ymweliadau a'r arolygiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn

Mae tri chyfarfod ymgysylltu â'r gwasanaeth wedi'u cynnal gyda'r cyngor yn ystod 2013-14. Hefyd, cynhaliwyd cyfarfodydd rhwng AGGCC a'r penaethiaid gwasanaeth mewn perthynas â materion gwasanaeth penodol, a rhwng AGGCC a Thîm Contractau Gofal Cymdeithasol Oedolion Wrecsam.

Adolygiad cenedlaethol o Gomisiynu mewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion Gorffennaf 2013 – Ionawr 2014 Arolygiad ar Ddiogelu a Chynllunio Gofal ar gyfer Plant Sy'n Derbyn Gofal ac unigolion sy'n gadael gofal ac yn dangos Ymddygiad Agored i Niwed neu Beryglus ('arolygiad plant sy'n derbyn gofal') - Mai 2014.

Ymweliad safle â Chanolfan Ddiogelu Amlasiantaeth Wrecsam 2014 (aildrefnwyd o fis Ebrill 2014).

Cwblhaodd AGGCC ei rhaglen wedi'i threfnu o arolygiadau rheoleiddiol, gan gynnwys y rhai a ddarparwyd yn uniongyrchol gan CBS Wrecsam.

Ymateb i'r meysydd i'w gwella a gafodd eu datgan y llynedd

Y meysydd i'w gwella a gafodd eu datgan y llynedd	Cynnydd yn 2013-14
Gwasanaethau iechyd meddwl - cynllunio strategol a datblygu gwasanaethau	Mae'r ymgysylltu â BIPBC i ddatblygu cynllunio strategol ar y cyd yn gwneud cynnydd yn gyffredinol ond nid yn ddigon cyflym. Mae rhywfaint o gynnydd, fel rhan o'r datblygiadau gwasanaeth integredig i bobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth, ond mae hwn

	yn parhau'n faes gwelliant i'r cyngor gyda'i bartner strategol BIPBC, fel y mae i gynghorau eraill yn y rhanbarth.
Datblygu datganiadau sefyllfa'r farchnad i gefnogi'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau effeithiol	Rhywfaint o gynnydd ond angen rhagor o ddatblygiadau. Mae methodoleg datganiad sefyllfa'r farchnad yn cael ei datblygu ond nid yw wedi cael ei rhoi ar waith eto.
Prosesau ffurfiol i gasglu a chynnull adborth defnyddwyr gwasanaeth yn gyson er mwyn gwella gwasanaethau	Gweithgarwch ymgysylltu a threfniadau amrywiol yn benodol i wasanaethau yn eu lle. Mae'r cyngor yn cydnabod bod rhaid datblygu hyn ymhellach a'i weithredu'n gyson ar draws y meysydd gwasanaeth.
Mynediad at asesu ac ymyrryd i ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl.	Mae gwybodaeth perfformiad am fynediad at asesu ac ymyrryd ar gael yn awr ar gyfer y sir gyfan gan BIPBC. Mae'r tîm cyswllt ac asesu wedi cael ei gryfhau a chofnodwyd llai o amser aros yn 2013-14.
Amseroldeb ac ansawdd asesiadau cychwynnol a chraidd y gwasanaethau plant.	Mae rhywfaint o welliant yn amseroldeb yr asesiadau ond mae'r perfformiad (yn enwedig mewn perthynas â'r asesiadau cychwynnol) yn parhau'n wael. Mae gweithgarwch archwilio cynyddol a chyflwyno adnodd risg yn rhoi hyder i reolwyr bod ansawdd yr asesiadau wedi gwella. Efallai bod y gwelliant yn y gyfradd ailgyfeirio'n adlewyrchu hyn.
Adolygiadau o gynlluniau gofal defnyddwyr y gwasanaeth oedolion.	Roedd y perfformiad mewn perthynas â chanran yr adolygiadau a gynhaliwyd yn wael a dyma'r drydedd flwyddyn i'r perfformiad ddirywio. Mae hwn yn parhau'n faes sydd angen ei wella.
Cyfleoedd tai cynyddol ar gael i bobl agored i niwed.	Mae rhywfaint o gynnydd e.e. mwy o fyw gyda chymorth, ond ceir hefyd feysydd eraill lle mae angen gwneud cynnydd. Er enghraifft, fel sydd wedi'i ddatgan yn Astudiaeth o Anghenion a Dyheadau Pobl Hŷn Wrecsam am Dai ac mewn perthynas â llety ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal. Mae hwn yn

	parhau'n faes i'w wella ar gyfer 2014-15.
Sefydlogrwydd lleoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan y cyngor.	Mae canran y plant sy'n derbyn gofal sy'n profi tri neu fwy o leoliadau yn ystod y flwyddyn wedi gwella, ond mae'n parhau'n rhan o'r chwarterel is ar gyfer Cymru ac yn faes i'w wella ymhellach.
Cyfrifoldebau magu plant corfforedig mewn perthynas ag archwiliadau iechyd, cynllunio lleoliadau a sefydlogrwydd, a chynlluniau addysgol personol.	Mae adrodd yn ôl ar yr asesiadau iechyd sydd wedi'u cynnal yn awr ond mae'r perfformiad yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Hefyd, mae canran y cynlluniau addysg o fewn 20 diwrnod i leoli wedi dirywio ond mae'r darlun o ran eithriadau wedi gwella. Yn gyffredinol, mae hwn yn faes sydd angen ei wella ymhellach.
Datblygu gwasanaethau i ofalwyr ifanc.	Mae gwasanaeth newydd i ofalwyr ifanc wedi cael ei gomisiynu i ddarparu mynediad cynyddol at weithgareddau a chefnogaeth.
Rheoli'r cyfeirio at y gwasanaeth amddiffyn oedolion.	Mae'r cyngor yn cydnabod nad yw ei ymateb wedi cyflwyno tystiolaeth o wella arferion eto. Mae angen gwelliannau o hyd.
Arferion gwell o ran asesu a lleoli gyda gofalwyr sy'n deulu (cynllun gweithredu'n cael ei roi ar waith eisoes).	Arolygwyd y gwasanaeth gan AGGCC ym mis Rhagfyr 2013 a nodwyd gwelliannau.
Dangos effeithiolrwydd y cynllunio busnes a'r rheoli perfformiad.	Mae gwelliannau wedi cael eu gwneud i drefniadau rheoli perfformiad ac i gynlluniau busnes. Mae rhagor o ddatblygiadau ar droed.
Sicrhau cydymffurfiaeth â'r cyfarwyddyd statudol mewn perthynas â rôl cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol.	Mae AGGCC wedi cael gwybod bod y cyngor, ar ôl adolygiad, wedi eu sicrhau eu hunain bod y strwythur presennol (er nad yw'n cydymffurfio'n llwyr) yn galluogi Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol i gyflawni ei gyfrifoldebau.

Cyflymder y gwelliannau i wasanaethau plant (a gafodd ei ddatgan y llynedd).	Bu gwelliant parhaus yn y gwasanaethau plant ond mae cyflymder y gwelliant yn parhau'n broblem mewn rhai meysydd penodol. Bu dirywiad ym mherfformiad rhai meysydd perfformio.
Y cyfathrebu rhwng yr aelodau a'r uwch reolwyr a'r timau rheng flaen.	Mae'r cyngor wedi cyflwyno tystiolaeth o well cyfathrebu rhwng uwch reolwyr ac aelodau arweiniol. Mae rhaglen o ymweliadau gan aelodau â'r timau rheng flaen yn ei lle.

Meysydd i AGGCC edrych arnynt eto y flwyddyn nesaf

- Gweithdrefnau a pherfformiad amddiffyn oedolion.
- Y meysydd gwasanaethau plant y tynnwyd sylw atynt yn yr adroddiad fel meysydd i'w gwella a lle mae gwelliannau wedi cael eu gwneud a'u cynnal.
- Perfformiad y gwaith o gynllunio gwasanaethau ieuchyd meddwl yn strategol mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.
- Cynnydd parhaus o ran ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth, gan gydnabod y rhan sy'n cael ei chwarae gan raglen 'ad-drefnu' y Cyngor mewn perthynas â'r agenda hon.
- Nifer y cleientiaid sy'n cael adolygiad o'u Cynllun Gofal oddi mewn i'r amserlen.
- Mentrau'r cyngor i ddatgan a rhoi sylw i anghenion tai pobl agored i niwed.

Perfformiad

Trefnu gwasanaethau

Oedolion

Mae blaenoriaethau allweddol Gofal Cymdeithasol i Oedolion, sef sicrhau diogelwch oedolion agored i niwed, hybu annibyniaeth, cefnogi gofalwyr a rhoi mwy o ddewis a rheolaeth, yn cael eu mynegi'n glir yn adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr. Mae Strategaeth Gomisiynu Pobl Hŷn 2013-18 yn cyflwyno manylion a ffocws ar ganlyniadau. Mae cynnydd gyda'r gwaith partneriaeth ar gyfer comisiynu a darparu gwasanaethau i bobl ag anghenion cymhleth ac mewn gwasanaethau ataliol. Mae strategaethau comisiynu yn eu lle ar gyfer pobl sydd ag anableddau corfforol, synhwyraidd neu ddysgu ond byddant yn cael eu diwedddaru'n fuan.

Mae'r Cyfarwyddwr yn cydnabod bod y gwaith o ddiwedddaru'r strategaethau comisiynu wedi'i seilio yn ei hanfod ar agenda ad-drefnu'r cyngor sydd, yn ei thro, yn seiliedig ar ostyngiadau cyllidebol. Bydd ffocws yr agenda ad-drefnu ar atal ac ailalluogi ac er y bydd y cyngor yn ceisio cynnig amrywiaeth o ddewisiadau, cydnabyddir y bydd y dewis i rai pobl yn gyfyngedig.

Mae proses ymgynghori helaeth yn ei lle ynghylch y newidiadau. Cofnodir yr adborth fel ymateb i sylwadau a wnaed gan y cyhoedd ar wefan y cyngor. Rhaid i'r cyngor sicrhau bod yr ymgynghoriadau ynghylch yr agenda ad-drefnu'n rhan o ddarlun cydlynol gyda phrosesau ymgynghori eraill fel "Rydyn ni'n gwrando" – "Deall ac ymateb i Ddinasyddion".

Er gwaetha'r trefniadau partneriaeth gwell rhwng y cyngor a BIPBC, mae'r cynnydd gyda gwella'r gwaith o gynllunio gwasanaethau iechyd meddwl yn strategol wedi bod yn araf. Mae angen cynnydd gydag adolygu'r trefniadau partneriaeth Adran 33 ffurfiol ar gyfer y tîm iechyd meddwl cymunedol a datblygu cyllidebau wedi'u pwlio neu drefniadau comisiynu cyllid ar y cyd gwell. Mae ffurfioli trefniadau Adran 33 ar gyfer gwasanaethau adfer a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn gamau gweithredu arfaethedig ar gyfer 2014-15. Cydnabyddir y bydd angen ymrwymiad nid yn unig gan gyngor Wrecsam ond hefyd gan ei bartner iechyd strategol er mwyn sicrhau cynnydd.

Mae'r cyngor yn aelod llawn o Ganolfan Gomisiynu Gogledd Cymru ac mae profiad o'i gwaith yn dylanwadu ar sicrhau ansawdd mewnol ac arferion contractio. Caiff agweddau 'gwerth am arian' y cydweithredu eu monitro.

Mae'r fframwaith ar gyfer gwasanaethau integredig i bobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth yng nghamau cynnar ei ddatblygiad. Cytunwyd ar ddatganiad o fwriad a chynllun gweithredu yn ystod y flwyddyn adrodd yn ôl hon ac mae'r rhain yn gyson â'r datblygiadau gwasanaeth sydd ar droed eisoes.

Plant

Mynegir y cyfeiriad strategol ar gyfer gwasanaethau plant yng nghynllun Wrecsam y BGLI a chynllun y cyngor. Mae cynllun y cyngor yn datgan blaenoriaethau allweddol mewn perthynas â gwasanaethau plant. Hefyd, mae dogfennau Cyllid Teuluoedd yn Gyntaf yn darparu cyfeiriad ar gyfer gwasanaethau ataliol. Cefnogir datblygiadau gwasanaeth unigol gan gynlluniau unigol ac mae'r strategaeth gomisiynu ddrafft i integreiddio'r cynlluniau hyn, y cyfeiriwyd ati yn adroddiad y llynedd, yn cael ei chyhoeddi ym mis Gorffennaf 2014. Mae'r cyngor yn dangos blaengaredd wrth ddatblygu dulliau a modelau gwasanaeth newydd ac mae rhai o'r rhain wedi cael cyllid grant. Yn y cyd-destun hwn, mae gan strategaeth gyffredinol botensial i gefnogi cynllunio tymor canolig i hir a hybu gwasanaethau cynaliadwy.

Bu cyfleoedd cynyddol i lais y plant a'r bobl ifanc gael ei glywed. Mae pobl ifanc wedi cael eu cynnwys yn ymgynghoriadau'r agenda ad-drefnu ac mae nifer y plant sydd wedi cael eu gweld a'u gweld ar eu pen eu hunain yn ystod asesiad cychwynnol wedi cynyddu. Y canlyniad yw mai Wrecsam oedd yr awdurdod a oedd yn perfformio orau yng Nghymru mewn perthynas â chanran y plant a oedd yn cael eu gweld yn ystod yr asesiad cychwynnol. Roedd hefyd yn chwartz uchaf y dangosydd perthnasol i ganran y plant sy'n cael eu gweld ar eu pen eu hunain. Sicrheir adborth yn rheolaidd gan ymyriadau fel y gwasanaeth TAC. Mae'r cyngor yn cydnabod yr angen am sicrhau mwy o ymgysylltu er mwyn parhau i ystyried cysondeb yr ymateb i bobl sy'n cysylltu â'r gwasanaeth, ac i fod yn fwy systematig yn y defnydd o adborth i ddylanwadu ar wasanaethau.

Mae'r cyngor wedi parhau i ddatblygu ei ddull cydweithredol o weithio wrth ddatblygu gwasanaethau. Ymhlith yr enghreifftiau cadarnhaol mae Canolfan Gomisiynu Gogledd Cymru, y contract is ranbarthol newydd ar gyfer gwasanaethau i ofalwyr ifanc gyda'r trydydd sector, a gwasanaethau i gefnogi unigolion sy'n gadael gofal a throseddwyr ifanc. Nid yw'r cyngor wedi llwyddo bob amser i sefydlu lefel y gwaith partneriaeth y byddai'n dymuno ei sicrhau gyda BIPBC. Mae trefniadau cyllido ar y cyd yn parhau'n faes y mae llawer o ddadlau yn ei gylch.

Meysydd cynnydd

- Parhau i ad-drefnu gwasanaethau oedolion i gefnogi ailalluogi a chefnogi annibyniaeth ac ymwneud cymunedol.
- Datblygiadau mawr mewn gwaith partneriaeth i rannu mwy o wybodaeth ac i wella'r penderfyniadau ar y dechrau.

Meysydd i'w gwella

- Cwblhau cynlluniau strategol cyffredinol mewn gwasanaethau Plant
- Cynllunio strategol a gweithredu modelau gwasanaeth mewn gwasanaethau iechyd meddwl.
- Rhagor o welliannau i weithgarwch ymgysylltu wrth gynllunio gwasanaethau.

Cael help

Oedolion

Mae'r cyngor wedi cyflwyno a moderneiddio gwefan well sy'n ymateb i amrywiaeth o ddyfeisiadau cyfryngol. Mae amrywiaeth ehangach o wybodaeth ar gael ac mae'r cyfleuster i breswylwyr roi adborth a sylwadau wedi'i gynnwys. Mae hwn yn brosiect sy'n dal i gael ei ddatblygu a'i fanteision llawn eto i gael eu cyflawni, ond mae cynnydd yn parhau i gael ei wneud. Ymhlith y mentrau eraill mae contract wedi'i adnewyddu gyda Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam i lunio cyfeirlyfr lleol o wasanaethau cymunedol a chynllun peilot yn defnyddio swyddogion llywio cymunedol / asiantau pentref i ysgogi datblygu gwasanaethau lleol a hefyd i helpu pobl i ddod o hyd i'r rhain. Mae canlyniadau holiadur gofal cymdeithasol i oedolion ar gyfer 2013-14 yn dangos cynnydd mewn boddhad, gyda 91% yn dweud ei bod yn hawdd iddynt gael cefnogaeth, cyngor a gwybodaeth.

Mae prosiect tair blynedd i alluogi pobl i ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd a chymdeithasol amrywiol drwy gyfrwng 'un cyswllt' yn gwneud cynnydd. Mae'r tîm cyswllt ac asesu wedi cael ei gryfhau i wella mynediad at ymyriadau gwaith cymdeithasol, cyfleusterau ailalluogi a chyfleusterau cefnogi'r gymuned. Mae mwy o bobl wedi cael asesiad nag o'r blaen, gan adlewyrchu'r cynnydd mewn galw. Mae'r cyngor yn dweud bod mesurau i werthuso effeithiolrwydd yr ailalluogi a'r ymgysylltu cymunedol wedi cael eu datgan yn awr ac y byddant yn cael eu defnyddio yn ystod 2014-15.

Mae'r cyngor wedi perfformio'n well na chyfartaledd Cymru mewn perthynas ag oedi gyda throsglwyddo gofal o ysbyty i'r gymuned, er gwaethaf perfformiad ychydig yn salach na'r llynedd. Bu gostyngiad bychan yn y ddarpariaeth o ofal cymunedol a phreswyl i bobl hŷn y pen am y boblogaeth yn ystod y flwyddyn, ond cynnydd bychan yng nghyfran y defnyddwyr gwasanaeth a gafodd gefnogaeth yn y gymuned. O edrych ar hyn yn erbyn cynnydd sylfaenol mewn galw, mae'r cyngor yn teimlo bod y data'n cyflwyno tystiolaeth o effeithiolrwydd ei ddull strategol o weithredu, sy'n cynnwys pwyslais ar gynyddu gwasanaethau ataliol.

Mae gwybodaeth perfformiad am fynediad at asesu ac ymyrryd mewn gwasanaethau iechyd Meddwl ar gael nawr ar gyfer y sir gyfan gan BIPBC. Dywedir ei bod yn dangos gwelliant mewn amseroedd aros yn 2013-14, ond un nod i'r gwasanaeth hwn fydd sicrhau bod rhagor o welliannau'n digwydd i fynediad.

Comisiynir dau fudiad o'r sector gwirfoddol i ddarparu gwasanaethau ar gyfer pobl sydd â nam ar y golwg a'r clyw yn Wrecsam. Mae'r gostyngiad yn argaeledd yr arbenigedd yn iaith arwyddion Prydain, a brofwyd yn ystod y flwyddyn, yn cael sylw.

Mae'r darlun o ran gyrfaedd yn aneglur. Yn yr arolwg blyneddol ar 126 o ofalwyr a oedd yn derbyn gwasanaeth yn ystod 2013-14, ymatebodd 37% a dywedodd 88% bod y gwasanaeth roeddent yn ei gael yn diwallu eu hanghenion. Fodd bynnag, mae'r data perfformiad yn dangos bod gostyngiad mawr wedi bod yn nifer y gofalwyr hysbys ac mae'r cyngor wedi esbonio hyn yn nhermau glanhau data. Mae'r cyngor yn tynnu sylw at amrywiaeth sylweddol yn yr ystadegau am ofalwyr ledled Cymru ac efallai mai'r dulliau cyfrif amrywiol sy'n cael eu defnyddio sy'n rhannol gyfrifol am hyn. Rhaid i'r cyngor fod yn hyderus yn ei ddata er mwyn sicrhau bod yr holl ofalwyr am oedolion a gyfeirir at y tîm Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn cael asesiad.

Plant

Mae gwefan y cyngor yn darparu cyfoeth o wybodaeth hygyrch i blant a phobl ifanc. Mae hon yn wefan newydd a'i nod yw sicrhau bod y wybodaeth ddefnyddiol sydd ar gael yn fwy hwylus i'w chanfod.

Mae'r cyngor yn cofnodi nifer cymharol uchel o gysylltiadau fel atgyfeirio (o gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru). Mae'r penderfyniad am beth sy'n gyswllt a beth sy'n gyfeirio'n effeithio ar y perfformiad a gofnodir. Er bod y cyngor yn cofnodi canran is o atgyfeiriadau a neilltuir ar gyfer asesiad o gymharu â llawer o gynghorau eraill, mae'r ffigurau sylfaenol yn awgrymu bod nifer cymharol uchel o'r plant y mae'r adran yn cael cyswllt yn eu cylch yn cael eu hasesu.

Mae Wrecsam yn perfformio'n dda o ran canran yr asesiadau cychwynnol lle mae'r plentyn yn cael ei weld. Mae hefyd yn dangos perfformiad da ar gyfer yr asesiadau hynny lle mae plentyn yn cael ei weld ar ei ben ei hun. Er bod amseroldeb y penderfyniadau o fewn 24 awr yn y chwarter is yn 96.2%, mae ystod y perfformiad ar lefel gyffredinol uchel ar gyfer y dangosydd hwn. Mae'r perfformiad cysylltiedig ag amseroldeb yr asesiadau cychwynnol a chraidd yn parhau yn y chwarter is, er eu bod yn dangos rhywfaint o welliant. Dim ond ychydig dros hanner yr asesiadau cychwynnol a wnaed oddi mewn i'r amserlenni gofynnol.

Canfu'r arolygiad ar blant sy'n derbyn gofal bod y perthnasoedd ag asiantaethau partner yn hwyluso'r gwaith o gasglu a rhannu gwybodaeth am risgiau posib plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal. Yn ystod 2013-14, mae'r cyngor wedi gweithio gyda'r heddlu a phartneriaid eraill er mwyn datblygu a chyflwyno Canolfan Ddiogelu Amlasiantaeth. Dechreuwyd gweithredu ym mis Mawrth 2104. Mae'r mesurau perfformiad i alluogi gwerthuso yn y dyfodol yn parhau i gael eu datblygu.

Mae'r cyngor wedi cyflwyno gallu rheoli ychwanegol ac adnoddau asesu a rheoli risg newydd gyda'r nod o wella ansawdd asesiadau. Bu gwelliant sylweddol yn y gyfradd ailgyfeirio eleni a'r canlyniad yw bod y cyngor wedi gwneud ychydig yn well na chyfartaledd Cymru.

Meysydd cynnydd

- Cyfradd ailgyfeirio mewn gwasanaethau plant.
- Tystiolaeth bod y plentyn wedi cael ei weld gan y gweithiwr cymdeithasol yn ystod yr asesiad cychwynol.

Meysydd i'w gwella

- Ymateb i ddefnyddwyr hysbys y gwasanaeth gofalwyr oedolion wedi'i gofnodi'n hysbys i'r gwasanaeth.
- Amseroldeb yr asesiadau cychwynol a chraidd.

Y gwasanaethau a ddarperir

Oedolion

Mae gan y Cyngor gynllun cydraddoldeb strategol ar gyfer 2012-16 sy'n cael ei roi ar waith yn y gwasanaethau cymdeithasol drwy gyfrwng grŵp cydraddoldeb. Fel ymateb i'r cynllun gweithredu cenedlaethol 'Mwy Na Dim Ond Geiriau', yn 2014-15, bydd y ffocws ar adnewyddu'r strategaethau comisiynu i gynnwys gwelliannau i allu gwasanaethau i gael eu darparu yn newis iaith defnyddwyr y gwasanaeth. Mae cynllun gweithredu'r Cyngor ar gyfer y Gymraeg yn cynnwys darpariaeth ar gyfer hyfforddi staff a meithrin hyder.

Mae'r Cyngor wedi parhau i ddatblygu ei wasanaethau cymunedol. Darparwyd tystiolaeth o ymgynghori ac o ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth mewn perthynas â datblygu gwasanaethau. Mae rhai newidiadau, fel newid i gynllun tai gwarchod, wedi profi'n ddadleuol ac mae'r Cyngor wedi adlewyrchu ar ei brosesau ymgynghori. Bydd rhaid i'r cyngor ystyried sut bydd unrhyw gynlluniau yn y dyfodol ar gyfer gostwng y cymhorthdal i drafnidiaeth wledig yn effeithio ar ei gynlluniau i gryfhau gwasanaethau cymunedol.

Mae'r Cyngor yn adrodd yn ôl bod adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn dynodi lefel uchel o foddhad yn gyffredinol. Mae lefelau is o foddhad wedi cael eu nodi

mewn perthynas â rhaglenni gweithgarwch mewn cartrefi gofal preswyl; cysondeb y gweithwyr gofal cartref sy'n cynorthwyo unigolion, a faint o amser oedd gweithwyr gofal yn gallu ei dreulio gyda phobl. Mae'r cyngor yn galw mwy a mwy ar y sector gofal cartref i weithio gyda defnyddwyr gwasanaeth mewn ffordd alluogol.

Mae'r bwriadau comisiynu mewn perthynas ag ystafelloedd dwbl mewn cartrefi gofal wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar. Yn y dyfodol, dim ond ar gyfer unigolion sydd wedi mynegi dewis cadarnhaol i rannu ystafell fydd y cyngor yn comisiynu lleoliad mewn ystafelloedd dwbl.

Mae'r tîm monitro contractau yn ymatebol i bryderon ac mae ganddo fethodoleg glir ar gyfer monitro ansawdd. Ar ôl tynnu sylw at faterion ansawdd a rheoleiddiol penodol, mae'r cyngor wedi sicrhau bod ei wasanaethau mewnol yn cael eu monitro i'r un lefel â'r gwasanaethau a gomisiynir yn allanol.

Gostyngodd canran yr adolygiadau o gynlluniau gofal a wnaed mewn perthynas â phobl a oedd yn derbyn gwasanaeth gofal o 81.5% i 61.8% yn ystod y flwyddyn. Dyma drydedd flwyddyn o berfformiad yn dirywio. Mae'r perfformiad yn amrywio rhwng timau. Dywed y cyngor bod adnoddau'n cael eu cyfeirio at y defnyddwyr gwasanaeth sy'n cael pecynnau gofal cymhleth, cost uchel. Y canlyniad yw nad yw nifer fawr o ddefnyddwyr gwasanaeth yn cael adolygiad amserol o'u hanghenion gofal. Mae hwn wedi cael ei ddatgan fel maes i'w wella ar gyfer y cyngor.

Cyhoeddwyd Astudiaeth o Anghenion a Dyheadau Pobl Hŷn Wrecsam am Dai yn 2013 ac mae gweithgor wedi cael ei sefydlu ar gyfer y cyngor cyfan, i roi'r argymhellion ar waith. Bu cynnydd hefyd yn y ddarpariaeth o gynlluniau tai â chymorth ar gyfer pobl ag anabledd dysgu.

Mae gan y cyngor brosesau ffurfiol ar gyfer cofnodi ac adrodd yn ôl ar gwynion a phryderon a godir yn y gwasanaethau oedolion a phlant. Mae cyfresi data ac adroddiadau perfformiad newydd ar RAISE wedi cael eu datblygu, a hefyd trefniadau ar gyfer adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth, er mwyn gwella rheolaeth ar berfformiad.

Plant

Mae'r cyngor yn parhau i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau cymunedol a gefnogir gan Gyllid Teuluoedd yn Gyntaf. Mae'r rhain yn cynnwys y Tîm o Amgylch y Plentyn a'r timau magu plant, y gwasanaethau a ddarperir drwy'r gwasanaeth gwybodaeth i deuluoedd a darpariaeth seibiant byr ychwanegol ar gyfer plant ag anableddau.

Bu rhywfaint o welliant yn y gweithgarwch ymgynghori ac ymgysylltu yn ystod y flwyddyn. Cymerodd pobl ifanc ran yn natblygiad contract Gwasanaeth Eirioli Rhanbarthol Gogledd Cymru ac yn natblygiad y strategaeth Gomisiynu ar gyfer Plant a Phobl Ifanc. Dywed y cyngor bod ymgynghori rheolaidd ar y ddarpariaeth gyfredol o wasanaethau drwy Gyngor y Plant a'r Bobl Ifanc mewn Gofal, sy'n cyfarfod unwaith y mis. Mae pobl ifanc yn aelodau o'r panel magu plant corfforedig.

Un gwelliant sydd wedi cael ei ddatgan gan y cyngor am y 2 flynedd ddiwethaf yw cael adborth defnyddwyr y gwasanaeth ar ansawdd y profiad o fynychu cynadleddau achos amddiffyn plant. Mae cais wedi'i wneud bellach i'r Cyngor Plant a Phobl Ifanc mewn Gofal helpu i ddatblygu a gweithredu polisïau a gweithdrefnau ar gyfer hyn yn ystod 2014-15.

Mae perfformiad canran y plant a gafodd eu gweld a'r rhai a gafodd eu gweld ar eu pen eu hunain yn ystod y flwyddyn wedi gwella, gan osod Wrecsam fel y cyngor sy'n perfformio orau o ran y dangosydd cyntaf ac yn y chwarter uchaf mewn perthynas â'r ail. Hefyd, mae canran yr adolygiadau sy'n cael eu cynnal oddi mewn i amserlenni statudol wedi cynyddu, gan ei osod yn uwch na'r cyfartaledd o gymharu â chynghorau eraill Cymru. Perfformiodd y cyngor yn dda hefyd mewn perthynas ag ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal, gan ei osod yn y chwarter uchaf ar gyfer y dangosydd hwn.

Bu cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn. Mae'n ymddangos bod hyn wedi cael effaith niweidiol ar nifer y cynlluniau gofal sydd yn eu lle ar ddechrau'r lleoliad, gyda pherfformiad y cyngor y gwaethaf yng Nghymru. Tynnodd y cyngor sylw at y perfformiad gwael hwn ar ddiwedd ail chwarter 2013 ac mae camau rheoli wedi'u rhoi ar waith fel ymateb.

13.5% oedd canran y plant a oedd yn derbyn gofal ar y 31^{ain} Mawrth a oedd wedi cael mwy na thri lleoliad. Er bod hwn yn welliant mewn perfformiad o gymharu â'r blynyddoedd a fu, hwn oedd y perfformiad ail waethaf yng Nghymru. Mae adolygiad o'r strategaeth leoli bresennol ar droed a bydd yn adrodd yn ôl ym mis Gorffennaf 2014. Amcan y cyngor yw ehangu gwasanaeth Prosiect Adleoli ac Atal Wrecsam, sydd wedi bod yn llwyddiannus yn ei farn ef yn darparu lleoliadau cost effeithiol addas i blant yn Wrecsam. Mae ymgais yn cael ei gwneud i recriwtio gofalmwr maeth therapiwtig ychwanegol.

Mae gwasanaethau i gefnogi plant wrth iddynt drosglwyddo i wasanaethau oedolion yn eu lle ac mae'r cyngor yn gwneud cynnydd gyda chynlluniau i integreiddio ei wasanaethau anabledd i oedolion a phlant o dan y gwaith o reoli'r gwasanaethau oedolion.

Meysydd cynnydd

- Datblygu a gweithredu strategaeth cydraddoldeb ac, yn benodol, gweithredu blwyddyn un cynllun gweithredu 'Mwy Na Dim Ond Geiriau'.
- Trefniadau monitro ansawdd ar gyfer gwasanaethau mewnol.

Meysydd i'w gwella

- Perfformiad o ran adolygu cynlluniau gofal i oedolion sy'n derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol.
- Sefydlogrwydd lleoliadau i blant sy'n derbyn gofal.
- Cynlluniau gofal yn eu lle ar ddechrau lleoliad pan mae plentyn yn dechrau derbyn gofal.
- Ansawdd y gwasanaethau gofal cartref a gomisiynir o ran cysondeb y gofalmwr.

Effaith ar fywydau pobl

Oedolion

Ffurfiwyd 'Tîm Diogelu Pobl' y Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Tachwedd 2013 a daeth yn gwbl weithredol yn ystod gweddill 13/14. Mae'r rheolwyr arweiniol dynodedig wedi cael hyfforddiant ac mae modiwl Amddiffyn Oedolion system RAISE IT wedi cael ei gyflwyno er mwyn gwella gallu'r cyngor i fonitro ac adrodd yn ôl ar berfformiad.

Wrth ddiogelu oedolion, mae'r cyngor yn cydnabod yr angen am wneud gwelliannau i amseroldeb cyfarfodydd strategaeth; eglurder y canlyniad; ac o ran datblygu dealltwriaeth gyffredin gyda phartneriaid statudol am drothwyon.

Mae gwybodaeth sydd wedi'i darparu gan y cyngor yn dynodi bod Bwrdd Diogelu Oedolion Wrecsam wedi'i sefydlu'n dda ac yn darparu cyfleoedd i faterion gael eu codi. Mae'r cyngor yn adolygu ei ddulliau o gael adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth am y broses ddiogelu.

Mae'r cyngor wedi parhau i ddatblygu ei strategaeth ailalluogi a galluogi. Mae wedi cyflwyno cyfleusterau cam i fyny, cam i lawr mewn cartref gofal annibynnol i atal derbyn i ysbytai ac i gefnogi rhyddhau ac amseroedd aros llai ar gyfer therapi galwedigaethol. Dywed y cyngor bod rhywfaint o gynnydd wedi bod yn y nifer sy'n cael tele-ofal.

O blith y bobl a gafodd wasanaeth ailalluogi, nid oedd 42.9% angen unrhyw becyn parhaus o ofal y talwyd amdano a bu gostyngiad ym mhecyn 26.3%. Mae nifer staff y tîm ailalluogi a'r tîm cyswllt cyntaf wedi'i gynyddu, darparwyd hyfforddiant a chyflwynwyd gofynion adrodd yn ôl newydd. Y nod o hyd yw cynyddu'r ffocws ar wella canlyniadau ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth.

Dywed y cyngor bod ei ymateb i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl wedi gwella wrth i nifer o weithwyr cymdeithasol ar draws y timau gwaith cymdeithasol, gan gynnwys y tîm cyswllt cyntaf, gwblhau hyfforddiant Ymarferwr Iechyd Meddwl Oedolion. Mae'r gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a ddarparwyd mewn partneriaeth â'r sector iechyd a gwirfoddol gan ganolfan alw i mewn Tŷ Croeso wedi cynyddu.

Mae'r cyngor wedi parhau i ddatblygu rhaglenni gwaith a gweithgareddau dydd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu ac wedi cynyddu nifer y cynlluniau byw â chymorth sydd ar gael. Mae'r gwaith sydd ar droed i ddatblygu fframwaith asesu, adolygu a chanlyniadau yn parhau. Mae'r angen am ddefnydd cynyddol o asesu risg, i gefnogi hybu annibyniaeth defnyddwyr gwasanaeth unigol, wedi cael ei ddatgan gan y cyngor ac felly hefyd yr angen am wella perfformiad mewn perthynas ag adolygiadau.

Plant

Mae'r cyngor wedi perfformio'n dda o ran amseroldeb cynadleddau Amddiffyn Plant (daeth yn drydydd yng Nghymru o ran perfformiad), adolygiadau Amddiffyn Plant,

ymweliadau statudol a gynhaliwyd oddi mewn i amserlenni statudol a chanran y plant a neilltuir i weithiwr cymdeithasol cymwys. Mae amseroldeb y cyfarfodydd grŵp craidd yn agos at gyfartaledd Cymru ond gyda rhywfaint o botensial am wella ymhellach.

Mae canran y gofawyr ifanc y mae'r cyngor yn gwybod amdanynt, ac a aseswyd ac a gafodd wasanaeth, wedi gostwng yn sylweddol o gymharu â'r llynedd (fel gyda gwasanaethau Oedolion). Mae'r cyngor wrthi'n aildendro'r gwasanaeth, ar y cyd â dau gyngor arall, gyda'r nod o ddarparu gwasanaeth gwell i ofalwyr ifanc.

Mae'r cyngor mewn cysylltiad â 92.2% o'r bobl ifanc sydd wedi gadael gofal. Er bod y dangosyddion perfformiad yn cael eu mynegi ar ffurf canrannau, mae nifer y bobl gysylltiedig yn isel. Maent yn ymwneud â'r cyngor mewn perthynas â 13 o'r 14 o bobl ifanc sydd yn y categori adrodd yn ôl (gwrthododd 1 person ifanc y gwasanaethau). Mae'r perfformiad mewn perthynas â'r rhai y gwyddir eu bod mewn llety addas heb fod yn llety argyfwng yn is na chyfartaledd Cymru yn 76.9%. Ar gyfer y rhai heb fod mewn cyflogaeth, hyfforddiant nac addysg, mae'r perfformiad yn gostwng i 23.1%. Mae hyn yn is na'r cyfartaledd ar gyfer cynghorau Cymru. Canfu arolygiad diweddar gan AGGCC mai ychydig o brentisiaethau oedd ar gael i'r rhai sy'n gadael gofal. Mae'r perfformiad cysylltiedig â chanlyniadau'r rhai sy'n gadael gofal yn faes i'w wella. Ar nodyn cadarnhaol, mae 100% o'r rhai sy'n gadael gofal sy'n agored i'r tîm gadael gofal yn cael cynghorydd personol ac mae gan 95% gynllun llwybr, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru.

Ceir protocolau ar y cyd rhwng gwasanaethau plant a thai a hefyd rhwng y gwasanaeth cyfiawnder ieuencid a thai er mwyn helpu pobl ifanc ddigartref i gael llety. Bu gostyngiad yn nifer y bobl ifanc yn y ddalfa o 12 yn 20012-13 i 8 yn 2013-14. Mae hwn yn ddatblygiad cadarnhaol.

Bu gwelliant sylweddol yng nghyfraddau presenoldeb ac eithrio'r plant sy'n derbyn gofal yn Wrecsam yn ystod y flwyddyn. Roedd y perfformiad cysylltiedig â chanran y cynlluniau addysg personol sydd yn eu lle'n siomedig ar gyfer y flwyddyn yn gyffredinol. Cafodd hyn ei ddatgan yn ystod y flwyddyn gan y broses monitro perfformiad ac mae'r cyngor wedi adrodd yn ôl ar berfformiad llawer gwell yn rhan olaf y flwyddyn. Cafodd 100% o'r rhai a oedd yn gadael gofal gynorthwy-ydd personol. Roedd perfformiad y cyngor o ran yr asesiadau iechyd a gynhaliwyd ychydig yn is na chyfartaledd cynghorau Cymru.

Canfu'r arolygiad ar blant sy'n derbyn gofal bod y panel magu plant corfforedig yn wybodus iawn. Adolygwyd cylch gorchwyl y panel yn ystod y flwyddyn i roi lle i bresenoldeb aelodau'r Cyngor i Blant a Phobl Ifanc mewn Gofal. Hefyd, mae aelod o'r Gwasanaeth Eirioli Cenedlaethol i Ieuencid yn mynychu'r panel. Canfu'r arolygiad bod gwasanaethau eirioli ar gael a bod y plant a'r bobl ifanc yn gwybod amdanynt, ond nid oeddent yn cael eu defnyddio mor effeithiol ag y gallent bob amser, i gefnogi llais y plentyn a sicrhau ei fod yn cael ei glywed.

Meysydd cynnydd

- Rhoi'r strategaeth ailalluogi ar waith.

- Datblygu adnoddau cymunedol fel y cynlluniau byw cymunedol ar gyfer pobl ag anabledd dysgu.
- Datblygu swyddogaeth y panel magu plant corfforedig.

Meysydd i'w gwella

- Amseroldeb ac ansawdd y cyfarfodydd Strategaeth Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed.
- Sefydlu dealltwriaeth gyffredin o drothwyon Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed gyda phartneriaid statudol.
- Canlyniadau i bobl ifanc sy'n gadael gofal.

Capasiti

Darparu Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae adroddiad gwella blynyddol SAC a gyhoeddwyd yn 2014, ac sy'n dangos perfformiad y cynghorau yn ystod 2012/13, yn cyfeirio at waith y cyngor yn datblygu rhaglen pum mlynedd i wella effeithlonrwydd ac ad-drefnu gwasanaethau. Mae rhaglen o newid wedi cael ei rhoi ar waith sy'n cynnwys dull wedi'i gynllunio o weithredu i leihau'r gweithlu. Mae SAC wedi datgan yr angen am i'r gwelliannau sy'n cael eu gwneud i ymgorffori cynllunio'r gweithlu barhau.

Yn y tîm gofal cymdeithasol i oedolion, mae'r trefniadau ailstrwythuro wedi cynnwys rhai diswyddiadau gwirfoddol. Mae trefniadau wedi'u gwneud hefyd i gryfhau'r tîm cyswllt cyntaf ac i wella ffocws y gwasanaethau ar wasanaethau ailalluogi ac atal.

Yn y tîm gwasanaethau plant, mae gallu rheoli'r Tîm Asesu Plant a Theuluoedd a'r Tîm Cefnogi Teuluoedd wedi cael ei gynyddu ac mae swydd pennaeth atal ychwanegol wedi cael ei chreu. Bu angen parhaus am gyflogi staff asiantaeth i lenwi'r swyddi gwag dros dro oherwydd absenoldeb mamolaeth neu salwch ar draws yr adran ac mae'r cyngor yn cydnabod peth ansefydlogrwydd ymhlith staff asiantaeth yn ystod y flwyddyn. Mae'r darlun cyffredinol yn adlewyrchu gwell sefydlogrwydd ymhlith y staff, gyda'r gwasanaethau plant yn dweud mai dim ond pedwar aelod o staff asiantaeth a gyflogwyd ym mis Mai 2014 o gymharu â 21, sy'n cynnwys cyfarfodydd tîm yn y tîm Oedolion so2011. Mae'r adroddiadau i'r pwyllgor craffu wedi nodi capasiti yn y gwasanaethau plant fel problem er mwyn cynnal gwelliannau parhaus o ran amseroldeb asesu.

Mae Strategaeth Datblygu Gweithlu'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cael ei diweddarau er mwyn cynnwys y newidiadau sydd eu hangen i ymateb i agenda foderneiddio'r cyngor. Mae disgwyl i'r targedau cymhwyso sydd wedi'u pennu yn y cynlluniau hyfforddi gael eu cyrraedd ym mhob maes ac eithrio Diplomâu mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol ar Lefelau 2 a 3 ar gyfer y sector gofal cartref, gan adlewyrchu ansefydlogrwydd y gweithlu penodol hwn.

Mae adroddiad gwella blynyddol SAC ar gyfer 12/13 yn cyfeirio at y cyngor yn gyffredinol fel cyngor sydd wedi cyflawni gwelliannau mewn cynllunio busnes, rheoli a chraffu, ond mae wedi dweud bod angen parhau â'r gwelliannau. Mae cynlluniau busnes y Gwasanaethau Cymdeithasol yn fanylach ac yn ganolog i'r pennaeth adran erbyn hyn, gyda mecanweithiau rheoli a monitro'n cael eu datblygu. Mae amrywiaeth o fesurau sicrhau ansawdd, sy'n canolbwyntio ar y cylch adrodd yn ôl ar berfformiad corfforedig, chwarterol ac sy'n cynnwys cyfarfodydd tîm oedolion a phlant, yn eu lle. Un amcan yw datblygu gwell cysondeb mewn gweithdai rheoli perfformiad adrannol.

Mae gwell rheolaeth ar berfformiad wedi cael cefnogaeth gan adrodd yn ôl cynyddol drwy system RAISE IT y Gwasanaethau Cymdeithasol. Cafodd yr angen am gyflwyno mwy o fesurau perfformiad cysylltiedig â diogelu, yn ychwanegol at fecanweithiau adborth i sicrhau adborth i gyfeirwyr a oedd yn ymwneud â phroses ddiogelu'r Oedolion, ei ddatgan y llynedd. Nid yw'r rhain i gyd wedi cael eu gweithredu'n llawn ond mae'r cyngor yn dweud bod cynnydd wedi cael ei wneud ac y byddant yn cael eu cyflwyno ym mlwyddyn adrodd yn ôl 2014-15.

Dywed y cyngor nad yw'r gweithdai adrodd yn ôl ar berfformiad chwarterol wedi'u datblygu cystal ym maes gwasanaethau oedolion o gymharu â gwasanaethau plant ac mae wedi datgan hon fel blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn adrodd yn ôl nesaf.

Mae cyflwyno'r tîm diogelu Integredig a'r Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaeth wedi bod yn ddatblygiad gwasanaeth mawr yn ystod y flwyddyn ond er bod rhai mesurau perfformiad yn eu lle yn gynnar yn y prosiect, mae'r fframwaith adrodd yn ôl ar berfformiad wedi parhau i ddatblygu ar ôl gweithredu, gyda goblygiadau ar gyfer gwerthuso'r datblygiad.

Meysydd cynnydd

- Cynllunio busnes yn fanylach a chadarnach.

Meysydd i'w gwella

- Gweithredu mwy amserol ar fesurau perfformiad er mwyn gwerthuso datblygiadau gwasanaeth newydd
- Gwell safoni ar y trefniadau rheoli perfformiad.

Darparu cyfeiriad

Yn Wrecsam, mae'r strwythur trefniadaethol sy'n cefnogi'r cyfarwyddwr i gyflawni ei rôl statudol yn gymhleth. Yn dilyn adolygiad cenedlaethol AGGCC o Rôl Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, a gynhaliwyd yn 2012-13, adolygodd y prif swyddog gweithredol y strwythur a daeth i'r casgliad nad oedd angen newidiadau i'r strwythur. Mae'r gwaith o integreiddio meysydd gwasanaeth ar draws yr adrannau oedolion a phlant mewn meysydd fel diogelu ac anabledd yn cael ei wneud, ac mae mwy o gysondeb mewn rheoli perfformiad ac adrodd yn ôl wedi'i gynllunio hefyd, a all fod yn berthnasol i drefniadau uwch reoli yn y dyfodol.

Cafwyd cyfeiriad clir yn y gwasanaethau oedolion a phlant o ran y prif ffocws adrannol a'r blaenoriaethau. Mae'r rhain wedi galluogi'r cyngor i ddangos rhai gwelliannau a rhywfaint o arloesi gyda'r gwasanaeth. Mae'r adran wedi dechrau ymgynghori â rhanddeiliaid ynghylch y newidiadau arfaethedig i ddarparu gwasanaethau. Bydd y newidiadau hyn yn arwain at newidiadau i drefniadau comisiynu, strwythurau staffio a chymhwysedd am wasanaeth. Mae angen o hyd am i'r rhain gael eu cefnogi gan ymgysylltu ac ymgynghori cynhwysfawr, ynghyd â dealltwriaeth o alw heb ei fodloni ac amodau'r farchnad. Mae'r cyngor yn cydnabod bod angen rhagor o welliannau yn y meysydd hyn.

Mae newidiadau i rôl yr aelod arweiniol wedi'u sefydlu'n gadarn yn ystod y flwyddyn, gyda chyfarfodydd, briffiau a gweithdai rheolaidd yn cael eu cynnal rhwng yr aelodau arweiniol a'r uwch reolwyr. Mae rhaglen o ymweliadau gan aelodau â thimau rheng flaen yn ei lle. Gan fod perfformiad y gwasanaethau plant wedi codi materion penodol yn y gorffennol, mae trefniadau wedi cael eu rhoi ar waith ar gyfer y gwasanaethau plant, i adrodd yn ôl ddwywaith y flwyddyn i'r pwyllgor craffu. Er bod y gwasanaethau plant wedi dangos gwelliant mewn rhai meysydd, nid yw'n glir bod y trefniadau craffu wedi bod yn effeithiol o ran sbarduno gwelliannau ar draws holl amrywiaeth gweithgarwch y gwasanaeth.

Yn ystod 2012-13, cyflwynodd y cyngor wasanaeth perfformiad a phartneriaeth canolog newydd. Dywed y gwasanaethau cymdeithasol bod yr angen am ymateb i gynlluniau arbedion manwl iawn sy'n ofynnol gan y cyngor wedi cyfyngu ar eu gallu i wneud cynnydd yn erbyn blaenoriaethau cynllun busnes y gwasanaethau cymdeithasol.

Mae'r cyngor yn parhau i ddangos ei fod yn ymwneud â'r agenda ranbarthol. Cefnogir gwaith partneriaeth rhwng y cyngor a BIPBC gan gyfarfodydd rheolaidd rhwng aelodau'r cyngor ac uwch reolwyr ieched. Ceir cynrychiolaeth o aelodau arweiniol ar y bwrdd gwasanaethau lleol. Er hynny, fel yng nghynghorau eraill Gogledd Cymru, mae heriau sylweddol iawn o hyd o ran cynllunio a gweithio effeithiol ar y cyd rhwng y cyngor a'r bwrdd ieched.

Meysydd cynnydd

- Eglurder cyfeiriad strategol y gwasanaeth yn yr hinsawdd ariannol.

Meysydd i'w gwella

- Cyflymder y gwelliannau i agweddau ar y gwasanaethau plant y cyfeiriwyd atynt yng nghorff yr adroddiad
- Gallu rheoli i ymateb i flaenoriaethau corfforedig a gwasanaeth.